## Y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol ei Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed gan y Cynulliad o ran cydraddoldeb yn 2009. Mae'r Adroddiad yn rhoi adroddiad cynnydd ar yr amcanion a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb ac mae'n amlygu cyflawniadau'r Cynulliad o ran hyrwyddo cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn. Ar 12 Ionawr 2010, cafodd y Comisiynydd dros y Cynulliad Cynaliadwy, Lorraine Barrett AC, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Claire Clancy, a Rheolwr Cydraddoldeb y Cynulliad, Holly Pembridge, eu holi gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am y cynnydd a amlygwyd yn yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi staff yn y Cynulliad, i gefnogi Aelodau'r Cynulliad ac i ymgysylltu â phobl Cymru.

Ymysg rhai o'r cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn mae:

- Cyrraedd Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ar gyfer 2009. Ymarfer meincnodi i restru'r cyflogwyr mwyaf hoyw-gyfeillgar yn y DU yw'r Mynegai. Gosodwyd y Cynulliad yn 73ain yn y cant uchaf a derbyniodd wobr am y "Cyflogwr oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru".
- Datblygu a rheoli Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru. Mae'r Cynulliad yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal cynllun mentora er mwyn i 34 o unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ymgysylltu mwy â democratiaeth yng Nghymru ac i gynyddu eu hyder o ran ymdrin â chynrychiolwyr etholedig.
- Digwyddiadau dathlu. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi dathlu llawer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys Mis Hanes Pobl Dduon; Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol; Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl; a chafwyd presenoldeb ym Mardi Gras Caerdydd-Cymru.
- Gwaith allgymorth. Mae gan y Cynulliad dimau Allgymorth a Digwyddiadau sy'n ymgysylltu â phobl ar draws Cymru. Mae staff wedi cyfarfod ag amryw o sefydliadau ar draws y meysydd cydraddoldeb.
- Taith y Llywydd. Fel rhan o raglen digwyddiadau deng mlynedd o ddatganoli, cyfarfu'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau nad ydynt wedi eu hymgysylltu'n ddigonol ar draws Cymru.

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gael yma.